



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Rhoi diwedd ar werthu mawn mewn garddwriaeth yng Nghymru a Lloegr – Cwestiynau ac Atebion Ymgynghori

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Ni sy'n gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, tyfu'r economi gwyrdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi'n diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio'n agos gyda 33 o asiantaethau a chyrrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd i'r genhedlaeth nesaf, a'i gadael mewn cyflwr gwell nag y cawson ni'r amgylchedd ynddo.



© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Sut mae ymateb i'r ymgynghoriad?

Gallwch weld y ddogfen ymgynghori ac ymateb i'r arolwg ar-lein yma: [Rhoi diwedd ar werthu mawn mewn garddwriaeth yng Nghymru a Lloegr - Defra - Citizen Space](#)

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, os hoffech ymateb i'r ymgynghoriad drwy'r ebost neu drwy ymateb ysgrifenedig yn lle'r arolwg ar-lein, neu os oes gennych sylwadau pellach ar ben ateb yr arolwg ar-lein, cysylltwch â ni yn:

Horticultural.Peat@defra.gov.uk neu mewn ysgrifen, wedi'i chyfeirio at:

Peat in Horticulture Consultation
Soils and Peatlands Team
Area SE
Seacole Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Os ydych yn ymateb yn Gymraeg, byddwch cystal ag ymateb drwy'r ebost neu drwy ymateb ysgrifenedig.

Pam rydych chi'n ymgynghori?

Mae ymgynghori'n rhoi gwybodaeth hanfodol inni am sut y gallwn ateb amryfal anghenion pobl a sefydliadau y gallai'n penderfyniadau ni effeithio arnyn nhw. Mae ymgynghori hefyd yn cryfhau democratiaeth drwy hybu perthynas agosach rhwng y llywodraeth a'r bobl y mae'n penderfyniadau'n effeithio arnyn nhw, gan arwain at benderfyniadau gwell a mwy effeithiol

Pam mae hi wedi cymryd cyhyd i ystyried gwahardd manwerthu mawn mewn garddwriaeth?

Gosododd Llywodraeth y Deyrnas Unedig dargedau gwirfoddol yn 2011, gan anelu at sector amatur di-fawn erbyn 2020 a sector proffesiynol di-fawn erbyn 2030 yn Lloegr. Gwnaed peth cynnydd arwyddocaol, gyda'r buddsoddiad a wnaed gan weithgynhyrchwyr a manwerthwyr mewn dewisiadau amgen yn lle mawn yn dechrau bwydo i mewn i'r farchnad. Er bod y cynnydd hwn gan y diwydiant yn addawol, mae angen rhagor o gamau gan y Llywodraeth i sicrhau bod y diwydiant cyfan yn dal i wneud cynnydd o ran newid i ddewisiadau amgen yn lle mawn, gan roi terfyn ar ddefnyddio mawn a chynhyrchion sy'n cynnwys mawn.

Beth rydych chi'n ei wneud ynghylch torri mawn?

Mae mawn yn cael ei dorri yn y Deyrnas Unedig at ddibenion garddwriaethol yn bennaf, a chyfyngau tyfu manwerthol mewn bagiau yw 70% o'r mawn a werthir yn y Deyrnas Unedig.

Heb os, bydd lleihau'r galw am fawn yn cael effaith ar dorri mawn, ond mae'n anochel y bydd angen rhywfaint o fawn at rai dibenion arbenigol. Gellir rheoli'r galw gweddilliol hwn am fawn yn fwyaf sensitif o'r safleoedd torri presennol, lle gallwn roi mesurau priodol ar waith i leihau effeithiau amgylcheddol torri mawn.

Pam mae ar y sector proffesiynol angen mwy o amser i roi'r gorau i ddefnyddio mawn a chynhyrchion sy'n cynnwys mawn mewn garddwriaeth?

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod nad oes digon o ddeunydd addas ar hyn o bryd i'r sectorau amatur a phroffesiynol drosglwyddo'n llawn ac yn gynaliadwy i gyfryngau tyfu di-fawn; i rai sectorau mae yna anawsterau technegol hefyd o ran gwneud y newid hwnnw. Dyna pam yr ydym yn ymgynghori ac yn galw am dystiolaeth i wella'n dealltwriaeth o'r heriau hyn.

Beth mae'r llywodraeth yn ei wneud i helpu'r diwydiant garddwriaeth i bontio i ddewisiadau amgen di-fawn?

Mae Defra ac aelodau o'r diwydiant wedi buddsoddi dros £1 miliwn mewn prosiect i ddarparu'r wyddoniaeth gymhwysol angenrheidiol i helpu i ategu'r gwaith o ddatblygu a rheoli cyfryngau tyfu amgen. Dros gyfnod o bum mlynedd, bu 100 o dreialon masnachol yn edrych ar 213 o wahanol gyfuniadau o gyfryngau tyfu a, drwy raglen o 12 o weithdai i'r diwydiant, adeiladwyd y gronfa sgiliau sy'n hanfodol er mwyn i dyfwyr reoli cyfryngau tyfu newydd yn effeithiol.

Rydyn ni hefyd wedi gweithio gyda'r diwydiant i ddatblygu Cynllun Ffynonellau Cyfrifol ar gyfer Cyfryngau Tyfu, sy'n caniatáu i weithgynhyrchwyr a manwerthwyr wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â'r cyfryngau tyfu i'w cynnwys mewn cynhyrchion di-fawn, ar sail yr effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol.

Ydy hi'n wir bod cynhyrchion yn lle mawn yr un mor ddrwg i'r amgylchedd?

Mae'r rhan fwyaf o gynhyrchion sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i lunio dewisiadau amgen di-fawn yn llawer llai niweidiol i'r amgylchedd na defnyddio mawn. Rydyn ni wedi gweithio gyda'r diwydiant i ddatblygu Cynllun Ffynonellau Cyfrifol ar gyfer Cyfryngau Tyfu, sy'n caniatáu i weithgynhyrchwyr a manwerthwyr wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â'r cyfryngau tyfu i'w cynnwys mewn cynhyrchion di-fawn, ar sail yr effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol.